BATHAFARN BACH

Cylchgrawn Hanes Yr Eglwys Fethodistaidd Yng Nghymru

RHIF 9 - HAF 2018

# Soar, Talsarnau

MOR HAWDD YDI CAU CAPEL, mor anodd yw sefydlu un. Dyna oedd yn mynd drwy fy meddwl mewn oedfa gofiadwy yn Soar, Talsarnau ychydig ddyddiau cyn Nadolig 2017.

Oedfa i gau'r capel ydoedd, ac os oedd yn achlysur trist i mi, roedd yn llawer tristach i'r rhai fu'n ei mynychu ers yn blant. Nid oedd dim o'i le ar yr adeilad, roedd wedi ei gadw'n dda ar hyd y blynyddoedd, ac roedd arian wedi ei wario arno. Yn bwysicach fyth, yr oedd y gynulleidfa yn awyddus i'w achos barhau. Na, rhyw fân reolau fu'n gyfrifol am ei gau, ac wedi cloi'r drws am y tro olaf, mae andros o lot o hanes yn cael ei golli. Bydd ar gof a chadw y gweddill ffyddlon, ond wedi i'r genhedlaeth hon fynd heibio, dyna hi wedyn.



Mae eisiau mynd yn ôl yn go bell i gyfnod ei sefydlu, mor bell yn ôl â marw John Wesley. Cwta bymtheg mlynedd wedi ei farw, roedd pregethwr Wesleaidd wedi dod i bregethu i ardal Talsarnau, a hogyn ifanc 13 oed gafodd y dasg o fynd o amgylch y tai i hysbysu'r trigolion am yr oedfa. Gwn mai Edmund Evans oedd ei enw, gan ei fod yn hen, hen, hen daid i mi. Yn Ty'n y Groes, Brontecwyn (neu Bryn y Bwa Bach) y cynhaliwyd yr oedfa, ym mis Tachwedd 1804. Rhaid bod y bregeth wedi plesio, ac wedi ennyn rhyw dân yng nghalonnau'r gwrandawyr, gan iddynt benderfynu codi capel Wesleaidd. Rhif yr aelodaeth oedd 45. Ymhen ugain mlynedd, roedd capel bach wedi ei godi, a'r Capten Griffith Roberts, Cefn Trefor Isaf ymgymrodd â'r gwaith, ac fe'i hagorwyd ar Orffennaf 2il, 1824. Ar y llechen ar ei dalcen roedd y geiriau, 'Cofiwch wraig Lot'. Mae'n amlwg mai tua'r dyfodol oedd golygon y rhain.



Ffynnu wnaeth yr achos, ac ymhen pymtheg mlynedd roedd y capel yn llawer rhy fach, a'r aelodaeth yn gant. Codwyd capel newydd dros y ffordd ym 1839, ac fe'i helaethwyd ym 1863, pan oedd rhif yr aelodaeth yn 170, wedi diwygiad '59. Sut oedd cymuned fechan, wledig, dlawd yn gallu gwneud hyn? Doedd dim grantiau Loteri i'w cael yn y dyddiau hynny. Yn syml iawn, roeddent yn torchi ei llewys ac yn gwneud y gwaith eu hunain, ac mae gwers inni yn y dyddiau presennol yn y stori hon. 'Cafwyd yr holl ddefnyddiau a'r cludiad yn rhad gan fferwmyr caredig yr ardal' meddai'r cofnod. Fel y dywed Edmund Evans ei hun, 'Cludasant [trigolion yr ardal] y cyfan ato yn goed, calch a cherrig yn rhad. Boed gogoniant i Dduw'. Mae hyn yn fwy o ryfeddod byth pan sylweddolwch faint y capel. Yr hyn ddaw i'm cof yw'r lluniau ym Meibl y Plant ers talwm pan oedd gweithwyr yr Hen Destament yn chwysu wrth lusgo meini mawr i godi teml. Mae Soar yn anferth.

Beth ddaeth o'r hogyn bach fu'n llatai? Daeth yn bregethwr Wesla (cynorthwyol) ei hun, gan grwydro o fan y fan yn lledu'r gair, ac yn llatai dros Grist. Gwyddwn iddo gael ei gladdu yn Soar, a thair blynedd yn ôl, euthum i'r fynwent efo'm rhieni i chwilio am y bedd, yn aflwyddiannus. Gan mod i o natur styfnig, dychwelais yno drannoeth efo offer garddio, ac yn y diwedd, dan y drain a'r mieri, fe'i canfyddais ymysg beddi hynaf y fynwent. Arno, cyfeirir at Edmund Evans fel 'Utgorn Meirion' gan ddweud iddo bregethu dros 13,000 o weithiau yn ystod ei oes, cyn iddo farw ym 1864. Gwyddom hanes ei fywyd yn bur dda gan iddo gadw dyddiadur manwl, ac mae hwnnw i'w weld yn y Llyfrgell Genedlaethol. Un o'i hanesion hynod oedd mai fo oedd y gweinidog oedd yn bresennol pan grogwyd Dic Penderyn. Roedd unarddeg mil o bobl wedi arwyddo deiseb i ddatgan fod Dic Penderyn wedi ei gyhuddo ar gam yn dilyn terfysgoedd Merthyr yn 1831. Y cyhuddiad oedd iddo drywanu milwr, ond fe'i cafwyd yn euog. Aeth Edmund Evans i'w gell a gweddïo efo Dic Penderyn am y tro olaf. Ni allaf ddychmygu sut beth yw ceisio cysuro llanc dwy ar hugain oed, efo gwraig ifanc a babi, sydd ar fin wynebu crocbren. Wn i ddim ychwaith pam mai pregethwr o Feirion oedd yn bresennol efo Dic Penderyn, yn hytrach na phregethwr lleol. Awgrymodd rhywun na fyddai'n ddiogel i rywun lleol gysylltu ei hun â'r achos, ac roedd chwaer Dic wedi priodi gweinidog Methodist, felly efallai fod yr awgrym yn gwneud synnwyr.

Yn festri capel Soar, yr oedd darlun olew o Edmund Evans, ac englyn gan Elis Owen Cefnymeusydd,

Cennad Hedd: ei fedd wyf fi – yn Soar
Y mae'r Sant yn tewi;
I gannoedd y bu'n gweini;
Gwaed y Groes i gyd ei gri.



Pan oedd Diwygiad 1904 yn ei anterth, roedd aelodau Soar eisiau dathlu canmlwyddiant yr achos, a'r bregeth gyntaf honno yn Ty'n y Groes. Rhaid oedd codi arian, ac unwaith eto, gwneud y gwaith eu hunain wnaethon nhw. Pedwar can punt roedden nhw eisiau ei godi (sy'n nes at £45,000 yn arian heddiw). Trefnwyd 'Noddachfa Fawreddog', sef bazaar, ond roedd i bara tridiau! Digwyddodd hyn wythnos cyn y Nadolig, ac roedd pedair stondin efo enwau crand, ond yn Saesneg – 'Moelwyn Stall', 'Dwyryd Stall' ac roedd yna 'Refreshment Stall'. Rhaid eu bod yn stondinau go helaeth gan fod pymtheg o bobl yn gyfrifol am bob stondin, ac mae eu henwau a'u cyfeiriadau wedi ei nodi. Gwn hyn gan fod gen i gopi o'r rhaglen, ac Edmund Evans (y fenga) – ŵyr Utgorn Meirion, oedd yr ysgrifennydd. Yr hyn na wn yw beth gai ei werthu ar y stondinau. Rhaid fod y cwbl wedi gwerthu achos llwyddwyd i godi'r arian. Efo'r elw, codwyd tŷ gweinidog hardd, Bryn Awel, helaethwyd y fynwent a chlirwyd y ddyled ar Seion. Efallai fod y cyfan wedi bod yn ormod i'r ysgrifennydd, gan iddo fudo i'r Amerig yn fuan wedyn. Ond arhosodd ei chwaer, Jane Ellen, yn y fro, a hi oedd organyddes y capel. Un Sul, roedd pregethwr ifanc o'r enw R. Môn Hughes yn pregethu, a syrthiodd y ddau mewn cariad. Nhw oedd

rhieni fy nhaid. Fe welwch felly pam fod Soar yn rhan go bwysig o hanes ein teulu ni. Yn y sedd fawr, roedd cadair gan Jane Ellen er cof am ei rhieni. Roedd honno ymysg y pethau a symudwyd o'r capel wedi'r oedfa olaf.

Ond i fynd yn ôl at Ddiwygiad 1904. Yn y *Gwyliedydd* ym mis Hydref 2004, cafwyd erthygl gan Emrys Jones yn trafod effaith y cyfnod hwnnw ar ei fam, Maggie Gwyneth Jones, a oedd yn chwech oed ar y pryd. Roedd ei rhieni wedi mynd i'r Cyfarfod Gweddi nosweithiol yn Soar gan ei gadael hi efo'i chwaer wyth oed a'i brawd pedair oed adre. Pan aeth ei brawd i grio yn ofnadwy, lapiodd ei chwiorydd ef mewn siol, a lawr a nhw i'r capel.

Gan fod y cwrdd heb ddod i ben, aethant a'r bychan i'r Tŷ Capel lle syrthiodd i gysgu.

Pan aeth y ddwy chwaer i'r capel, roedd llond y lle o bobl a phlant yn gweddio ar draws ei gilydd ac yn gweiddi, "Haleliwia, Bendigedig ar ei Ben bo'r Goron". Er ei bod yn ddeg yn nos, parhaodd hyn am awr arall. Gadawodd y teulu bach am unarddeg, ond ar y ffordd gwelsant hen wreigen yn deud, "Ewch yn ôl i'r capel. Mae goleuni wedi dod fel bwa dros y capel." Yn eu hôl yr aethant i barhau â'r gorfoleddu.

Ugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd Emrys ei hun yn blentyn, a mynnai ef fod y cof am y Diwygiad yn dal yn fyw iawn, ac y caent Gyfarfod Gweddi amser chwarae ar yr iard. Wrth fynd i hel priciau, cofiai Emrys yr hogiau yn canu "Ar ei ben bo'r Goron' a 'Diolch Diolch Iddo'. Meddai Emrys, "Os wyf yn cofio'n iawn, yn Egryn ger y Dyffryn y dechreuodd y Diwygiad. Roedd cannoedd yn rhoi ei hunain o'r newydd i'r Arglwydd ac ni chlywyd erioed weddïo tebyg.' Ac fel hyn y dywedodd y Parch D.Tecwyn Evans yn ei gyfarfod olaf yn y Penrhyn, "Roedd y llen yn denau, a'r Nef yn agos iawn atom."

Tawelodd y gweddïau yn Soar, Talsarnau, ac mae cau'r drysau yn ddiwedd trist i'r stori. Ie, anodd yw sefydlu achos, ond cam go hawdd gan rai yw ei gau. Gawn ni ddiolch i ffyddloniaid Soar am ei gynnal gyhyd, a gobeithio y caiff yr adeilad ei warchod, ac y caiff y gynulleidfa aros gyda'i gilydd i barhau i addoli.

**ANGHARAD TOMOS**

Diolch i Frances Owen am sawl hanesyn, i erthygl Emrys Jones yn y *Gwyliedydd*, ac i erthygl gan Arvon Roberts yn *Llais Ardudwy* (Ionawr 2018).

Hefyd, os am ddarllen mwy am Edmund Evans, cyhoeddwyd wyth erthygl gan R. Emrys Jones yn y *Gwyliedydd* rhwng 2001 a 2002 dan y teitl 'Edmwnd Evans 1791-1864'. Mae'r rhain yn cynnwys pytiau o'i ddyddiadur.



# Atgofion Dyn Cyffredin

## sef atgofion y Parchedig William H. Hughes (1898-1971)

FE'M GANED YM MHENTREF TREGARTH yn Sir Gaernarfon yn 1898, a'm magu mewn tŷ o'r enw Bryn Poeth. Chwarelwr oedd fy nhad yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda. Bu yn hollti a naddu "cerrig" (llechi) nes bod yn 74 oed. Doedd dim sôn am ymddeol na phensiwn yr adeg hynny! Roedd yn flaenor yng Nghapel Shiloh, Tregarth, a gwres y diwygiad yn dal ei ddylanwad ar y pentref o hyd.

Gadewais yr ysgol yn 13 oed a mynd i weithio yn siop "Llanerchymedd", yn Nhregarth. Bûm yno am dair blynedd, nes gorffen fy mhrentisiaeth. Yn 16 oed heliais fy nhraed i ddinas fawr Birmingham a dechrau gweithio mewn siop yn Handsworth, yn pacio siwgr mewn bagiau (bagiau yr oedd yn rhaid i mi fy hun eu gwneud). Symudais wedyn i siop yn gwerthu coffi, te a coco yn New Street ac yn y man es i'r Wholesale Warehouse, Browne a Gilbert. Mynychais y gwasanaethau yng nghapel bach Prior Street. Capel Wesle ydoedd, yn cyfarfod mewn goruwchystafell a oedd yn dyblu fel swyddfa yn ystod yr wythnos.

Yn 18 cefais fy ngalw i'r fyddin o dan y "Derby Scheme", i ddechrau fy ngwasanaeth milwrol. Cefais fy hun yn reidio beic drwy'r dydd gan fy mod yn perthyn i'r Cycling Corps. Dysgais lawer o driciau â'r beic gan fwynhau fy hun yn fawr. Bûm mewn llety cysurus, croesawgar iawn yn Worcester gan aros ar aelwyd cwpwl caredig.

Ymadael â Worcester wedyn y bu yn rhaid imi wneud, gan deithio i Manningtree ger Colchester. Roeddwn yn cysgu mewn malthouse (bragdy) a chefais gwmni llygod mawr drwy'r nos. Hyfryd iawn!!

I Tidworth Barracks ar y Salisbury Plain yr anfonwyd fi wedyn i ymuno â'r Worcester Yeomanry cavalry Battalion! Newidiais fy meic am geffyl a chael llawer o hwyl yn dysgu marchogaeth. Deuthum yn ffrindiau mawr â'm ceffyl a theimlais wrth edrych yn ôl mae'r ffrind yma (y ceffyl) oedd y partner gorau a gefais gydol fy ngyrfa yn y fyddin.

Ymhen rhyw flwyddyn anfonwyd rhyw ddwsin ohonom i'r Aifft. Siwrnai ar y trên drwy Ffrainc i Marseilles a hwylio ar y llong i Alexandria. Bûm yno am wythnos a gwelais ar fy nyletswydd ambell i long yn cael ei suddo gan longau tanfor y gelyn.

Cawsom ein hanfon i Kentara, yn yr anialwch eto, ac aros

yno am rai dyddiau. Teimlais gryn hiraeth yma, heb weld Cymro arall ers misoedd, gan fy mod hefo catrawd Seisnig, y Worcester Yeomanry. Cofiaf gael te ynghanol y tywod ac agor tun o jam fel 'treat'. Roeddwn yn cwffio'r pryfaid oedd yn benderfynol o wneud gwledd o'r jam pan ddaeth milwr o gatrawd a gwersyll arall heb fod ymhell i ffwrdd heibio. Codais ar fy nhraed i'w groesawu. Edrychodd arnaf a dweud, "William Hugh o bawb". Ie, Griff ydoedd, Griff Giât Gors o Dregarth. Dyma le rhyfedd iawn i gyfarfod – ynghanol yr anialwch!

Cefais wybod gan Griff fod llawer o Gymry yn ei wersyll ef a bod gwasanaeth Cymraeg wedi ei drefnu ar gyfer y nos Sul canlynol. Daeth y Sul a hyfryd oedd bod yn yr oedfa honno a minnau heb glywed Cymraeg ers misoedd. Johnnie, Penrala, Tregarth, oedd wrth yr harmoniwm a Llew Roberts, brawd y Parch Gwilym R Roberts oedd yn codi canu. Pregethwyd gan y Parch Gwilym Williams, Twrgwyn, Bangor.

Cefais fy ngalw o flaen y Community Officer a'm tywys ato gan ryw fwli o sarjant yn gweiddi "left right, left right, halt". Un cyfeillgar oedd y swyddog a hyn yn dipyn o sioc i mi, gan fy mod yn disgwyl fy nisgyblu am rywbeth oedd wedi digwydd. Eisiau gwybod ydoedd am lythyr a ysgrifennais adref, a holi pa iaith oeddwn yn ei defnyddio. Cefais orchymyn nad oeddwn i ysgrifennu yn fy iaith fy hun o gwbl. Creadur bach swil oeddwn ond cefais ddigon o wroldeb i'w ateb yn ôl. Dywedais fod llywodraeth Prydain, o dan y Prif Weinidog Lloyd George, wedi mynnu'r hawl i bob Cymro ysgrifennu yn y Gymraeg. Atebodd y swyddog â'r esgus arferol nad oedd sensor o Gymru ar gael ynghanol anialwch yr Aifft. Dywedais wrtho am un a fuasai'n barod i basio fy llythyr yn Alexandria, sef fy mrawd John a oedd yn gaplan yno.

Nid wyf am fanylu am yr amser wedyn. Symudwyd ni i Joppa, ar lan môr y Canoldir ym Mhalestina. Roedd yn dipyn o daith o'r Aifft yno, ar draws tywod diderfyn o Port Said. Joppa oedd y lle y bu Pedr yn lletya, ac yr anfonodd Cornelius amdano i dŷ Seimon wrth y môr. Roedd y gwersyll yng nghanol perllan orennau. Wrth gwrs, yn Jaffa yr oeddwn! Aethom allan ar ein ceffylau yn ystod y dydd, drwy gae melons. Nid oedd angen disgyn i lawr i bigo melon, dim ond sticio cleddyf i lawr a'i godi i fyny i'w fwyta.

Gadael Joppa ar doriad gwawr ynghanol sŵn mwyaf dychrynllyd. Gynnau mawr yn tanio o'r tir ac o'r môr. Wedi tawelwch yn y saethu, symud ymlaen ar garlam am filltiroedd drwy Estredon, heibio i Jezreel lle lladdwyd Jezebel, gwraig Ahab, ac y taflwyd ei chorff i'r cŵn am iddi erlid proffwyd yr Arglwydd, Elias.

Ymlaen i Nasareth drwy'r bryniau. Cofiaf yn Nyffryn Esdradon ein bod yn sychedig am ddŵr, wedi teithio oriau yn y gwres ac o'r diwedd dod at afon fechan. Pawb ohonom am y gorau yn rhuthro am ddŵr o'r afon. Wedi ein digoni dyma arwain ein ceffylau at y dŵr ond yr un ohonynt yn yfed diferyn. Roeddem yn methu â deall pam a hwythau mor sychedig – yn glafoerio'u genau o eisiau dŵr. Wedi mynd i fyny'r afon fach am ryw ganllath gwelsom gorff ceffyl yn farw yn yr afon. Dysgais felly mae'r peth callaf i'w wneud oedd gadael i'r ceffylau yfed yn gyntaf!

Dod i dref hanesyddol Nasareth ar ôl esgyn i'r bryniau (wedi ymlid y Twrciaid o Joppa i Nasareth a'u cymryd yn garcharorion). Lle cysegredig i Gymro a oedd wedi ei fagu yn yr Ysgol Sul. Y cwbl a ddywedaf am fy arhosiad yn Nasareth yw fy mod wedi gwneud adduned ar fy ngliniau ar y noson olaf yno, rhywle ar fynydd Tabor. Roedd hi'n noson dywyll a phedwar ohonom 'on guard' y tu ôl i graig fawr. Clywsom sŵn rhywbeth anferth yn llusgo i fyny'r bryn o'n blaenau. Fel yr oedd yn nesáu atom yr oedd y bechgyn yn saethu i gyfeiriad dau olau rhyfedd a oedd yn disgleirio nawr ac yn y man. Arhosodd rhyw ddwy lath oddi wrthym yn y tywyllwch a bu tawelwch. Wedi toriad gwawr drannoeth gwelsom mai arth fawr oedd yn gorwedd wedi marw a chadwyn am ei gwddw. Sut y torrodd yn rhydd? Tybed ai mascot byddin Twrci ydoedd?

Aethom ymlaen wedyn i Acre ac at droed Mynydd Carmel, yn agos at Haifa, ac yna troi yn ôl i gyfeiriad Nasareth a mynd am y gogledd ddwyrain. Gwelsom hen bentref bach Cana yn ardal Galilea, lle y trowyd y dŵr yn win gan Iesu Grist. Parhau i deithio ymlaen gan ymlid y Twrciaid, i gyfeiriad Môr Galilea, a chyrraedd pen y bryniau, gan edrych i lawr at Tiberias. Tiberias yw'r unig dref ar lan y llyn heddiw. Troi i'r gogledd wedyn gan ganlyn glannau'r llyn a chael mwynhau digon o ddŵr i'w yfed. Cawsom y pleser o ymdrochi ac edrych ar olion pentref Bethsaida yn y pellter. Deallais fod tuag ugain o ddynion yn ennill eu bywoliaeth drwy bysgota ar Fôr Galilea – Arabiaid i gyd a'r rhan fwyaf ohonynt yn Foslemiaid. Gwelir fel rheol ddau o'r pysgotwyr yn rhwyfo'r cwch a dau arall yn trin y rhwydau. Ystyr y gair Galilea yw cylch neu ardd ond y mae'r gair Hebraeg yn golygu crud. Enwau addas iawn i ddisgrifio'r Môr hwn.

**WILLIAM H. HUGHES**

Rydym yn ddiolchgar iawn i Mr Islwyn Hughes am anfon yr ysgrif hon gan ei dad. Gobeithir cyhoeddi mwy o'i hanes nes ymlaen.

**BATHAFARN BACH – RHIF 9 – HAF 2018**
© y cyfranwyr unigol
**Cyhoeddwr**: Y Gymdeithas Hanes,
Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd
**Golygydd**: Dr Lionel Madden,
Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth, SY23 1EY
**Ffôn**: 01970 617771 **ebost**: madden.aber@gmail.com
Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r *Gwyliedydd*
**Argraffwyr**: Y Lolfa